

Y PWYLLGOR SAFONAU

28 Mehefin 2017

Yn bresennol: Mr R Barrett-Evans (Cadeirydd)
Ms C Gwyther (yn dirprwyo ar ran Mr A Archer), y
Cynghorydd R Owens, Mrs V Tomlinson a Mrs J
Wainwright

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 2.00pm – 2.20pm)

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am fethu â bod yn bresennol oddi wrth Mr A Archer a'r Cynghorydd P Morgan.

2. Datgelu buddiant

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2016 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2016.

4. Rhoi Goddefebau

Esboniodd y Swyddog Monitro fod y Pwyllgor Safonau wedi penderfynu yn y gorffennol i roi goddefeb i Aelodau a benodwyd gan Gyngor Sir Penfro er mwyn iddynt gymryd rhan lawn yn y broses o benderfynu ar faterion sy'n ymwneud â Chyngor Sir Penfro. Cyn i oddefebau gael eu rhoi roedd anawsterau wedi codi o ran y cworwm ar yr Awdurdod a hefyd o ran colli gwybodaeth leol am fod rhaid i Aelodau ymneilltuo o'r cyfarfod. Yn sgil yr etholiadau Llywodraeth Leol a gynhaliwyd yn gynharach yn y flwyddyn, roedd Cyngor Sir Penfro wedi penodi nifer o Aelodau newydd, ac felly roedd angen cytuno i roi goddefebau unwaith eto.

Roedd yr adroddiad yn esbonio'r amgylchiadau lle ceir rhoi goddefebau ac roedd yn argymhell y byddai'n fuddiol i'r Awdurdod roi goddefebau i Aelodau a benodwyd gan Gyngor Sir Penfro hyd nes y cynhelir etholiadau nesaf yr awdurdodau lleol ym mis Mai 2022. Nodwyd nad oedd rhoi goddefeb yn effeithio ar weithrediad unrhyw ran arall o'r Cod Ymddygiad, ac y byddai'n rhaid i Aelod ddatgan buddiant o hyd, er enghraifft os oedd yn berchen ar dir yn ymyl tir a oedd yn eiddo i Gyngor Sir Penfro, ac a oedd yn destun cais.

Cytunodd y Pwyllgor mai da o beth fyddai rhoi goddefebau i Aelodau Cyngor Sir Penfro, a chynigiwyd ac eiliwyd hyn.



PENDERFYNWYD rhoi goddefeb i Aelodau a benodwyd gan Gyngor Sir Penfro er mwyn iddynt gymryd rhan lawn yn y broses o benderfynu ar faterion sy'n ymwneud â Chyngor Sir Penfro am gyfnod hyd at 30 Mehefin 2022.

